



Syniadau ar gyfer cysylltu â rhieni bedydd a'u cynnwys

Mae yna lawer o ffyrdd gwahanol o ddathlu'r berthynas arbennig rhwng rhieni bedydd a phlant bedydd. Mae rhai o'r syniadau hyn yn syml iawn, gydag eraill yn gofyn am fwy o waith cynllunio a pharatoi. Gallech roi cynnig ar un neu ddau neu dri ohonyn nhw. Does dim ots a ydych chi'n dathlu'r rhai sydd wedi cael eu gwneud yn rhieni bedydd yn ddiweddar, neu rai sydd wedi bod yn y rôl ers blynnyddoedd, maen nhw i gyd yn arbennig, i gyd yn cael eu cynnwys mewn gweddi, a bydd pob un ohonyn nhw am gefnogi eu plant bedydd.

20 ffordd i gadarnhau a chynnwys rhieni bedydd:


- 1 Gwahoddwch deuluoedd bedydd diweddar i'r eglwys, gan ddod â'u rhieni bedydd gyda nhw os gallan nhw, ac ewch ati i gynnal gwasanaeth arbennig iddyn nhw'n unig.
- 2 Crëwch goeden gweddiâu arbennig. Byddwch angen dwy fasged, un yn cynnwys darnau byr o ruban gwyn, a'r llall yn cynnwys darnau byr o ruban melyn. Labelwch y rhubanau gwyn 'I rieni bedydd' a'r rhubanau melyn 'I blant bedydd'. Gwahoddwch bobl i glymu rhuban i'r goeden fel arwyddo o'u gweddi i'r naill neu'r llall neu i'r ddau.
- 3 Prynwch focs mawr o gardiau post â llun arnyn nhw a gadewch nhw yng nghefn yr eglwys. Anogwch rieni bedydd a phlant bedydd i ddewis cerdyn ac ysgrifennu neges fer i'w plentyn bedydd/rhiant bedydd.
- 4 Gwnewch gacennau arbennig i'w rhannu ar ôl y gwasanaeth – mae yna bobwyr creadigol allan yno bob amser ac efallai y bydd rhywun yn barod i wneud cacen ddathlu fawr i'w rhannu.
- 5 Gallwch gynnal parti cinio picnic mawr i'r eglwys i ddathlu rhieni bedydd a theuluoedd. Gall fod yn barti dod a rhannu, ond gyda rhai elfennau dathlu fel balwens a baneri.
- 6 Crëwch fwrdd atgofion ar gyfer rhieni bedydd yn yr eglwys: gofynnwch i'r gynulleidfa reolaidd a'r teuluoedd bedydd diweddar i anfon lluniau - neu straeon - am rieni bedydd.
- 7 Defnyddiwch y cyfryngau cymdeithasol – naill ai Facebook neu Twitter – i anfon negeseuon cadarnhaol am rieni bedydd.
- 8 Ewch ati i wneud neu brynu pentwr o galonnau papur a sêr papur [byddai rhai siocled yn gweithio'n dda yma]. Rhewch galonnau i blant bedydd, i'w hatgoffa bod pobl yn eu caru. Rhewch sêr i rieni bedydd i ddiolch iddyn nhw am eu gofal a'u hymroddiad.

- 9 Gwahoddwch bawb i ddod â'u kannwyll fedydd yn ôl i'r eglwys, a'u cynnau i gyd mewn stand canhwylau arbennig. Darparwch ganhwylau bach ychwanegol i'r rhai sy'n rhieni bedydd/plant bedydd ac sydd heb kannwyll. Anogwch bawb i adael gyda channwyll wrth iddyn nhw barhau i gario goleuni Crist i'r byd.
- 10 Rhowch siart troi yng nghefn yr eglwys. Ysgrifennwch y pennawd "Pethau i'w gwneud i fy rhiant bedydd/plentyn bedydd" a gofynnwch i bobl ychwanegu syniadau i greu rhestr anferth o bethau i'w gwneud.
- 11 Rhowch botyn mawr neu focs wedi'i addurno'n arbennig yng nghefn yr eglwys. Rhowch ddarnau o bapur neu dagiau cesys gerllaw a gofynnwch i bobl ychwanegu eu meddyliau mewn 'Potyn Bendithion' i rieni bedydd.
- 12 Dewch o hyd i'r berthynas rhiant bedydd hiraf yn eich cynulleidfa. Ysgrifennwch amdani yng nghylchgrawn y plwyf ac ar y cyfryngau cymdeithasol.
- 13 Cysylltwch â'ch gorsaf radio/papur lleol i adrodd straeon rhieni bedydd.
- 14 Gallwch gynnal te-parti i rieni bedydd o bob oed. Lle bo'n bosibl, gwahoddwch blant bedydd i baratoi a gweini yn y parti. Gofynnwch i bawb ddod â darn 10c [neu ddarn punt yn dibynnu ar sefyllfa economaidd eich ardal] a chreu siâp y kannwyll fedydd ohonyn nhw. Rhowch yr arian i elusen sy'n cefnogi cysylltiadau teulu ehangach, fel Undeb y Mamau.
- 15 Ewch ati i gynnal diwrnod hwyl i'r teulu neu ddiwrnod mabolgampau ar ddydd Llun Gŵyl y Banc. Gallwch greu gemau a gweithgareddau i rieni bedydd a phlant bedydd eu gwneud gyda'i gilydd.
- 16 Crëwch lwybr teuluol o amgylch eich eglwys/mynwent sydd wedi'i gynllunio i rieni bedydd a phlant bedydd ei wneud gyda'i gilydd. Dylech gynnwys gwahanol lefydd arwyddocaol ar gyfer lluniau a gweddiâu e.e. wrth y bedyddfaen, gwnewch arwydd y groes ar eich llaw.
- 17 Os gallwch chi, gwnewch alwad Skype yn ystod gwasanaeth i'r rhiant bedydd/plentyn bedydd sy'n byw ymhelaf i ffwrdd.
- 18 Plannwch lwyn neu ros yn arbennig yng ngardd/gwely blodau'r eglwys a'i galw'n "Gardd Rhieni Bedydd".
- 19 Crëwch gornel i rieni bedydd/plant bedydd yn yr eglwys, gan ddefnyddio'r 'arddangosiad Bedydd' fel sail. Gofynnwch i drefnwyr blodau greu arddangosfa flodau arbennig.
- 20 Dosbarthwch y magnedau oergell arbennig i rieni bedydd i'w hatgoffa o'u hadduned i weddiö dros eu plentyn bedydd. Mae'r magnedau i'w cael o www.churchprinthub.org

Ac fel bonws....gweddiwch drostyn nhw'n rheolaidd! Mae gweddi'n syniad da bob amser!



Y R E G L W Y S
YNG NGHYMURU



THE CHURCH
IN WALES